

Sut i:

fonitro a gwerthuso eich prosiect

Rydych chi wedi derbyn grant oherwydd ein bod ni o'r farn y byddai'r gweithgareddau a'r gwasanaethau roeddech chi'n eu disgrifio yn eich cais yn gwneud gwahaniaeth positif i'r rhai a fydd yn mynychu eich prosiect.

Rydyn ni'n awyddus iawn i glywed am eich gwaith ac i ddysgu oddi wrthyh chi. Byddwn yn eich annog i ddweud wrthym ni beth sy'n mynd yn dda a hefyd beth nad yw'n mynd mor dda. Fe hoffen ni ddeall sut rydych chi'n gwybod pan fyddwch chi wedi gwneud rhywbeth yn dda a sut rydych chi'n ymateb i her. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi fonitro a gwerthuso eich prosiect ac adrodd yn ôl i ni bob blwyddyn fel rhan o'ch cytundeb wrth dderbyn yr arian.

Beth yw ystyr monitro a gwerthuso?

Monitro yw casglu data a gwybodaeth wrth redeg prosiect ar gyfer gwirio cynnydd y prosiect yn erbyn eich cynlluniau ar ei gyfer.

Gwerthuso yw defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i gasglu wrth fonitro, a gwybodaeth arall i gymryd penderfyniadau ynghylch sut mae eich prosiect yn symud ymlaen.

Beth ddylech chi ei gynnwys yn yr adroddiad monitro?

Byddwn yn gofyn i chi sôn yn yr adroddiad monitro ynghylch:

- y gweithgareddau a'r gwasanaeth rydych chi'n eu darparu
- y newidiadau positif rydych chi wedi'u gweld mewn unigolion, teuluoedd neu'r gymdeithas ehangach
- beth ydych chi wedi'i ddysgu? Oes yna unrhyw beth fydddech chi'n ei newid pe bydddech chi'n darparu'r prosiect eto?
- sut fyddwch chi'n cynnal / ariannu'r prosiect yn y tymor hir, os yn berthnasol
- nifer, oed a chefnidir y bobl rydych chi'n eu cefnogi
- sut wnaethoch chi wario'r arian rydych chi wedi'i gael

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth newidiadau positif?

Dyma eich barn ar yr hyn a weithiodd yn dda, yn seiliedig ar eich monitro.

Os oeddech chi'n gobeithio denu mwy i gymryd rhan yn eich prosiect, gallai eich cofnodion presenoldeb fod yn dystiolaeth mai pum person oedd yn mynychu bob wythnos pan oeddech chi'n cychwyn y prosiect, 12 mis yn ddiweddarach rydych yn cofnodi bob wyth person arall yn bresennol yn rheolaidd.

Neu efallai eich bod yn gobeithio cynyddu hyder y rhai sy'n mynychu eich prosiect. Gallai arolwg ar y dechrau ddangos fod y rhai sy'n mynychu'n teimlo'n bryderus iawn ac arolwg 12 mis yn ddiweddarach fod y rhai oedd yn mynychu'n hapusach.

Efallai y byddwch yn sylwi hefyd o adborth gan bobl eraill fod person x yn hynod o ddistaw ac angen llawer o gefnogaeth, ond erbyn hyn mae'n cymryd rhan yn eiddgar heb i neb ofyn iddo.

Rydyn ni'n deall y bydd newid yn wahanol i bawb ond bydd rhai enghreifftiau'n dangos yn glir beth ydych chi'n ei wneud.

Am beth ydyn ni'n chwilio yn y cwestiwn 'beth ydych chi wedi'i ddysgu'?

Rydyn ni o'r farn fod y prosiectau gorau bob amser yn ceisio dysgu a gwella, a dyna pam ein bod yn gofyn i chi ddweud wrthym ni beth ydych chi wedi'i ddysgu.

Rydyn ni â diddordeb mewn clywed os nad aeth rhywbeth oeddech chi wedi geisio ei wneud mor dda, beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol pe bydddech chi'n cychwyn unwaith eto. Neu efallai fod rhywbeth wedi gweithio'n well na'r disgwyl ac fe fydddech chi wrth eich bodd yn gwneud mwy ohono. A yw adborth gan y rhai sy'n defnyddio eich gwasanaeth wedi gwneud i chi newid rhywbeth ynghylch eich prosiect?

Sut fyddwn ni'n defnyddio eich adroddiad?

Byddwn yn defnyddio eich adroddiad i'n helpu ni i ddeall yn well beth ydych chi'n ei wneud. Dyma ein cyfle ni i ddod i wybod rhagor amdanoch chi. Byddwn yn darllen pob adroddiad ac efallai'n cysylltu i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch eich prosiect.

Os byddwch chi'n ymgeisio am fwy o arian oddi wrth unrhyw un o'n cronfeydd neu'n rhaglenni, ar gyfer prosiect tebyg neu wahanol, byddwn yn defnyddio eich adroddiadau i'n helpu i benderfynu ar y cais.

Byddwn yn dadansoddi'r data yn eich adroddiad a hefyd y data oddi wrth rai eraill a gafodd grant i ddangos ein 'heffaith' neu'r 'darlun mwy' o'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i fywydau pobl Cymru. Efallai y byddwn ni'n defnyddio 'dyfyniadau' neu luniau i'n helpu ni i adrodd ein stori neu efallai y byddwn yn defnyddio eich prosiect fel 'astudiaeth achos' (gyda chaniatâd).

Bydd casglu'r wybodaeth yn ein helpu ni i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a ddim mor dda ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau. Rydyn ni'n chwilio bob amser am awgrymiadau i'w rhannu gyda phobl eraill ac i'n helpu ni wrth gymryd penderfyniadau ynghylch grantiau.

A fyddwn ni'n rhoi adborth i chi ar eich adroddiad?

Bydd yna ddewis yn yr adroddiad i chi dicio blwch os hoffech chi i Swyddog Grant gysylltu â chi. Os byddwch chi'n ticio'r blwch, byddwn yn trefnu pryd i alw.

Bydd y Swyddog Grant yn rhoi adborth adeiladol ar eich adroddiad ac yn trafod unrhyw beth arall hoffech chi holi yn ei gylch ond efallai y bydd yn rhaid iddo ofyn am gyngor pellach a galw'n ôl gyda chi rywbryd arall.

Cofiwch na fydd Swyddogion Grantiau'n gallu trafod unrhyw geisiadau eraill a allai fod ar y gweill.